# DATGANIAD O'R RHESYMAU

## Gorchymyn Sir Gaerfyrddin
## (Gosod Terfyn Cyflymder o 50 M.Y.A.) 2025

Pwrpas y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig hwn yw cyflwyno terfyn cyflymder o 50mya ar rannau penodol o'r rhwydwaith priffyrdd lle mae'r terfyn cyflymder cenedlaethol presennol (60mya) yn cael ei ystyried yn amhriodol oherwydd pryderon am ddiogelwch ffyrdd ac i gefnogi amcanion teithio llesol.

Mae dadansoddiad o ddata gwrthdrawiadau traffig ac arolygon cyflymder wedi canfod bod cyflymder cerbydau ar y ffyrdd yr effeithir arnynt yn aml yn ormodol ar gyfer amodau'r ffyrdd, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'n anodd gweld yn glir neu lle mae troeon sydyn neu gyffyrdd. Disgwylir i derfyn cyflymder is o 50mya leihau'r risg o wrthdrawiadau a'u difrifoldeb, gan wella diogelwch i holl ddefnyddwyr y ffyrdd.

Mae nifer o'r ffyrdd a gynhwysir yn y Gorchymyn hwn yn cael eu defnyddio gan gerddwyr, beicwyr a marchogion. Byddai terfyn cyflymder is yn creu amgylchedd mwy diogel a mwy cyfforddus i'r defnyddwyr ffyrdd hyn sy'n agored i niwed, yn enwedig lle nad oes troedffyrdd neu lwybrau ar wahân i'w cael neu eu bod yn gyfyngedig.

Bwriedir lleihau'r terfyn cyflymder i 50mya yn yr ardaloedd canlynol:

| 1<br>**Ardal** | 2<br>**Enw/Disgrifiad o'r Ffordd** | 3<br>**Cyfeirnod Map** |
|---|---|---|
| Blaenau | Ffordd Dosbarth II,<br>y B4556,<br>Blaenau i Landybïe | AH29 ac AH30 |
| Blaenau | Ffordd Dosbarth III,<br>Blaenau i Saron | AH30 ac AH31 |

| | | |
|---|---|---|
| Capel Dewi | Ffordd Dosbarth II,<br>y B4300,<br>Capel Dewi i Lanarthne | AA25, AB25, AC25 a Z25 |
| Dre-fach | Ffordd Dosbarth II,<br>y B4310,<br>Dre-fach i Borth-y-rhyd | AB29, AC29 ac AC30 |
| Hermon | Ffordd Dosbarth II,<br>y B4333,<br>Hermon i Aberarad | P11, P12, P13, Q12, Q13, Q14, Q15, Q16, R16, R17 a S17 |
| Llanarthne | Ffordd Dosbarth II,<br>y B4300,<br>Llanarthne i Ffair-fach | AC25, AD25, AD26, AE25, AE26, AF25, AG25 ac AH25 |
| Llanddarog | Ffordd Dosbarth II, y B4310, Llanddarog | AA27 ac AA28 |
| Llanedi | Ffordd Dosbarth II,<br>y B4297,<br>Coopers i Lanedi | AF33 |
| Pen-y-groes | Ffordd Dosbarth II,<br>y B4556,<br>Pen-y-groes i Gae'r-bryn | AF30 ac AG30 |